OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2750

# Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013

**Dangos y mathau o ffrwythau a ddefnyddiwyd**

**10.**—(1) Rhaid i berson beidio â masnachu mewn cynnyrch rheoleiddiedig oni bai bod enw'r cynnyrch yn dangos y mathau o ffrwythau y daeth y cynnyrch ohonynt yn unol â pharagraffau (2) i (7).

(2) Os gweithgynhyrchir cynnyrch rheoleiddiedig o un fath o ffrwyth, rhaid rhoi enw'r ffrwyth hwnnw yn lle'r "[x]" yn enw'r cynnyrch.

(3) Os gweithgynhyrchir cynnyrch rheoleiddiedig o ddau fath o ffrwythau (heb gynnwys defnyddio un neu fwy o blith sudd lemon, sudd leim, sudd lemon wedi ei ddwysáu a sudd leim wedi ei ddwysáu yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 8), rhaid rhoi rhestr o enwau'r ffrwythau a ddefnyddiwyd yn lle "[x]" yn enw'r cynnyrch.

(4) Os gweithgynhyrchir cynnyrch rheoleiddiedig o dri neu fwy o fathau o ffrwythau (heb gynnwys defnyddio un neu fwy o blith sudd lemon, sudd leim, sudd lemon wedi ei ddwysáu a sudd leim wedi ei ddwysáu yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 8), yn lle "[x]" yn enw'r cynnyrch rhaid rhoi—

(a) rhestr o enwau'r ffrwythau a ddefnyddiwyd;

(b) y geiriau "several fruits" neu eiriau tebyg; neu

(c) nifer y mathau o ffrwythau a ddefnyddiwyd.

(5) At ddibenion paragraff (3) a (4)(a), rhaid i'r rhestr o enwau'r ffrwythau gael ei nodi yn nhrefn ddisgynnol y suddoedd neu'r piwrïau a gynhwyswyd o bob math o ffrwyth, yn ôl eu cyfaint, fel y'u gwelir yn y rhestr cynhwysion.

(6) Pan ddefnyddir rhywogaeth o ffrwyth a restrwyd yng ngholofn 2 o Atodlen 13 wrth baratoi sudd ffrwythau, piwrî ffrwythau neu neithdar ffrwythau, yr enw y mae'n rhaid ei roi fel enw'r ffrwyth yn enw'r cynnyrch yn unol â gofynion y rheoliad hwn yw—

(a) enw cyffredin y ffrwyth a bennwyd yng ngholofn 1 o Atodlen 13, neu

(b) enw botanegol y ffrwyth a bennwyd yng ngholofn 2 o Atodlen 13.

(7) Yn achos unrhyw rywogaeth arall o ffrwyth a ddefnyddir wrth baratoi sudd ffrwythau, piwrî ffrwythau neu neithdar ffrwythau, yr enw y mae'n rhaid ei roi fel enw'r ffrwyth yn enw'r cynnyrch yn unol â gofynion y rheoliad hwn yw—

(a) enw cyffredin y ffrwyth, neu

(b) enw botanegol y ffrwyth.

(8) Yn y rheoliad hwn rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at "[x]" yn enw cynnyrch gan gymryd i ystyriaeth y darpariaethau ynglŷn ag enwau cynhyrchion yn rheoliadau 4 i 9.